Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Mawrth 2019

Amser: 09.01 – 09.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5321

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd) Rhun ap Iorwerth AC Alun Davies AC Rhianon Passmore AC Nick Ramsay AC
Tystion:	Elan Closs Stephens, Comisiynydd Etholiadol Cymru Rhydian Thomas, Comisiwn Etholiadol Kieran Rix, Comisiwn Etholiadol
Staff y Pwyllgor:	Leanne Hatcher (Ail Glerc) Ryan Bishop (Dirprwy Glerc) Martin Jennings (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike Hedges AC a Neil Hamilton AC.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor ei siom ynghylch yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar weithredu Deddf Cymru 2014.

2.2 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN1 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Cysylltiadau rhyngsefydliadol rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru

2.2 PTN2 - Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru - Gweithredu Deddf Cymru 2014

3 Sesiwn graffu y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): y Comisiwn Etholiadol

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Elen Closs Stephens, Comisiynydd Etholiadol Cymru; Kieran Rix, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y DU; a Rhydian Thomas, Pennaeth y Comisiwn Etholiadol, Cymru.

3.2 Cytunodd y Comisiwn Etholiadol i ddarparu i'r Pwyllgor ffigurau am gostau wedi'u diweddaru yn gysylltiedig â'r broses o ddiwygio cofrestru etholiadol.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac eitem 1 o'r cyfarfod ar 4 Ebrill.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.